



The Royal College of Radiologists

Ffurflen gydsynio i radiotherapi ar gyfer tiwmorau'r ymennydd

Dim ond os yw'r claf dros 16 oed a bod ganddo'r galluedd i gydsynio y dylid defnyddio'r ffurflen hon. Os nad oes gan y claf y galluedd yn gyfreithiol, defnyddiwch ffurflen gydsynio amgen briodol gan eich ysbyty.

Manylion y claf

Enw'r claf:

Dyddiad geni:

Dynodydd unigryw'r claf:

Enw'r ysbyty:

Oncolegydd ymgynghorol neu radiograffydd therapiwtig ymgynghorol cyfrifol:

Gofynion arbennig: e.e. trafnidiaeth, dehonglydd, cymorth

Manylion y radiotherapi

Diagnosis:

Rhan o'r corff:

Nod y driniaeth:

(Ticiwch fel y bo'n briodol)

- Radical** – triniaeth a roddir er mwyn rheoli'r tiwmor yn yr hirdymor
- Cynorthwyol** – triniaeth a roddir ar ôl llawdriniaeth er mwyn arafu datblygiad y tiwmor neu ei atal rhag dychwelyd
- Rheoli clefyd / symptomau** – triniaeth a roddir er mwyn arafu datblygiad y tiwmor a / neu atal y symptomau rhag gwaethygu

Therapi gwrth-ganser systemig cydredol (SACT):

(Ticiwch fel y bo'n briodol)

- Ie â**
- Na**

Gall sgil-ffeithiau radiotherapi gael eu cynyddu os byddwch yn cael therapi gwrth-ganser systemig ar yr un pryd. Bydd ffurflen gydsynio ar wahân yn cwmpasu sgil-ffeithiau posibl y driniaeth hon.

Efallai y bydd gennych gwestiynau cyn dechrau eich radiotherapi, neu yn ystod neu ar ôl y driniaeth.

Rhoddir manylion cyswllt yma ar gyfer unrhyw ymholiadau pellach, pryderon neu os hoffech drafod eich triniaeth ymhellach.

Cyngor ynglŷn â gyrru:

- Os ydych yn gyrru, a'ch bod yn cael diagnosis newydd o diwmor ar yr ymennydd neu eich bod wedi cael trawiad neu eich bod yn cael triniaeth i'r ymennydd, mae'n ofynnol i chi hysbysu'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrrwyr a Cherbydau (DVLA). **Ni ddylech yrru nes i chi gael eich hysbysu'n ffurfiol y gallwch wneud hynny.**

Sgil-efeithiau byrdymor posibl

Mae sgil-efeithiau byrdymor yn dechrau yn ystod radiotherapi neu'n fuan ar ôl cwblhau radiotherapi. Fel arfer, maent yn diflannu o fewn dau i chwe mis ar ôl cwblhau radiotherapi.

Gall y posibilrwydd o gael symptomau a achosir gan radiotherapi i'r ymennydd a difrifoldeb y symptomau hynny amrywio yn dibynnu ar leoliad y tiwmor a'r ardal sy'n cael ei thrin. Gall symptomau gynnwys:

	Disgwyliedig 50%–100%	Cyffredin 10%–50%	Llai cyffredin Llai na 10%	Anghyffredin Llai nag 1%
Risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig â radiotherapi				
Blinder	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gwallt yn teneuo neu golli gwallt	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Newidiadau i'r croen gan gynnwys poen ar y croen, cosi neu newidiadau yn lliw'r croen	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Pen tost	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Colli awydd bwyd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cyfog neu chwydu	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Symptomau sy'n gysylltiedig â'r tiwmor yn gwaethgu a ysgogir gan yr ymennydd yn chwyddo (edema), y gall fod angen cwrs o steroidau i'w drin	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Trawiadau yn gwaethgu neu'n dechrau (epilepsi), y gall fod angen eu trin â meddyginiaeth atal trawiadau yn yr hirdymor	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Newidiadau i'r cof neu'r gallu i ganolbwyntio neu feddwl yn arafach	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Awydd cysgu eithafol (syrthni) a all godi sawl wythnos ar ôl y driniaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Effaith ar y clwyf llawfeddygol a all atal y clwyf rhag gwella neu achosi i'r clwyf ailagor	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Risgiau penodol sy'n ymwneud â'r rhan o'r corff sy'n cael ei thrin				
Newidiadau yn eich golwg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Llygad sych neu boenus	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Newidiadau yn eich clyw a all gynnwys: colli clyw, tinitws (sŵn cloch neu synau anarferol yn y glust) neu deimlad bod y glust yn llawn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Newidiadau i gydbwysedd, pendro neu gydsymudiad	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Hylif yn cronni yn yr ymennydd (hydroseffalws). Efallai y bydd angen llawdriniaeth i osod siynt ac, mewn achosion prin iawn, gall achosi marwolaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Risgiau penodol eraill i chi sy'n gysylltiedig â'ch triniaeth				

Rwy'n cadarnhau bod y sgil-efeithiau uchod wedi cael eu hesbonio i mi.

Blaenlythrennau'r claf

Sgil-ffeithiau hwyr neu hirdymor posibl

Gall sgil-ffeithiau hirdymor ddechrau fisoedd neu flynyddoedd ar ôl y driniaeth neu gallant gael eu hachosi gan sgil-ffeithiau byrdymor nad ydynt yn diflannu. Gallant fod yn barhaol.

	Disgwyliedig 50%–100%	Cyffredin 10%–50%	Llai cyffredin Llai na 10%	Anghyffredin Llai nag 1%
Risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig â radiotherapi				
Gwallt yn teneuo neu golli gwallt yn barhaol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Newidiadau i'r cof neu'r gallu i ganolbwytio neu feddwl yn arafach a all gynyddu a gwaethgu gydag amser	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Radionecrosis – ardal fach o newid diwrthdro yn yr ymennydd, a all fod yn symptomatig neu gael eu nodi ar sganiau. Efallai y bydd angen ei drin â steroidau neu, mewn achosion prin iawn, efallai y bydd angen llawdriniaeth i'w drin	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Meigrnau tebyg i strôc (SMART)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Trawiadau yn gwaethgu neu'n dechrau (epilepsi), y gall fod angen eu trin â meddyginiaeth atal trawiadau yn yr hirdymor	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Strôc (damwain ymenyddol-fasgwlaidd (CVA) neu strôc fach (trawiad isgemig darfoddedig (TIA))	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Anaf i'r ymennydd, coesyn yr ymennydd neu fadruddyn y cefn a allai achosi anabled parhaol neu farwolaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Tiwmor anfalaen neu ganser gwahanol lle rhoddir triniaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Risgiau penodol sy'n ymwneud â'r rhan o'r corff sy'n cael ei thrin				
Newidiadau i weithrediad hormonau pitwïdol sy'n arwain at lefelau hormonau isel (is-bitwïdedd). Gall hyn achosi symptomau ac efallai y bydd angen i'r claf gael triniaeth feddygol megis triniaeth adfer hormonau hirdymor	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Llygad sych	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Datblygu cataractau (cymylu yn lens y llygad) y gall fod angen llawdriniaeth i'w gywiro	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Newid yn eich golwg neu golli eich golwg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Newidiadau yn eich clyw a all gynnwys colli clyw neu dinitws (sŵn cloch neu synau anarferol yn y glust)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Newidiadau i gydbwysedd, pendro neu gydsymudiad	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Risgiau penodol eraill i chi sy'n gysylltiedig â'ch triniaeth				

Rwy'n cadarnhau bod y sgil-ffeithiau uchod wedi cael eu hesbonio i mi.

Blaenlythrennau'r claf

Enw'r claf:

Dynodydd unigryw'r claf:

Datganiad y gweithiwr iechyd

(i'w lenwi gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd â gwybodaeth briodol am y driniaeth arfaethedig)

- Rwyf wedi trafod yr hyn y mae'r driniaeth yn debygol o'i chynnwys, amcanion bwriadedig y driniaeth hon a'i sgil-ffeithiau.
- Rwyf hefyd wedi trafod manteision a risgiau unrhyw driniaethau amgen sydd ar gael gan gynnwys dim triniaeth.
- Rwyf wedi trafod unrhyw bryderon penodol sydd gan y claf hwn.

Rhodddwyd taflen wybodaeth i leifion: Do / Naddo – Manylion: _____

Rhodddwyd copi o'r ffurflen gydsynio i'r claf: Do / Naddo

Llofnod:

Dyddiad:

Enw:

Teitl swydd:

Datganiad y claf

- Mae nodau a sgil-ffeithiau posibl y driniaeth wedi'u hesbonio i mi ac rwyf wedi cael cyfle i drafod triniaeth amgen, ac rwy'n cytuno i gael y driniaeth a ddisgrifir ar y ffurflen hon.
- Rwy'n deall na ellir gwarantu y bydd unrhyw unigolyn penodol yn rhoi'r radiotherapi. Fodd bynnag, bydd yr unigolyn yn meddu ar arbenigedd priodol.
- Soniwyd wrthyf am driniaethau ychwanegol sy'n angenrheidiol cyn fy nhriniaeth. Gall hyn gynnwys marciau parhaol ar y croen a ffotograffau i helpu i gynllunio a nodi triniaethau.
- Rwy'n cytuno y gall gwybodaeth a gesglir yn ystod fy nhriniaeth, gan gynnwys delweddau a'm cofnodion iechyd, gael eu defnyddio ar gyfer addysg, gwaith archwilio ac ymchwil. Bydd unrhyw wybodaeth a ddefnyddir yn ddiennw. Rwy'n ymwybodol y gallaf dynnu fy nghydsyniad yn ôl unrhyw bryd.

Ticiwch os yw'n berthnasol

- Rwy'n cadarnhau nad oes risg y gallwn fod yn feichiog.
- Rwy'n deall na ddylwn feichiogi yn ystod y driniaeth.

Noder: os oes unrhyw bosibilrwydd eich bod yn feichiog, rhaid i chi ddweud wrth eich meddyg ysbyty/gweithiwr iechyd proffesiynol cyn cael triniaeth gan y gall hyn arwain at niwed sylweddol i ffetws yn y groth. Nid yw testosteron a thriniaethau hormon eraill yn ddulliau atal cenhedu.

- Rwy'n deall na ddylwn geisio beichiogi plentyn na rhoi sberm nac wyau yn ystod y driniaeth, a byddaf yn trafod â'm honcolegydd pryd y bydd yn ddiogel i mi geisio beichiogi plentyn ar ôl cael radiotherapi.

- Rwy'n deall petawn yn parhau i smygu y gallai gael effaith sylweddol ar y sgil-ffeithiau y byddaf yn eu profi ac effeithiolrwydd fy nhriniaeth.

- Nid oes gennyf reolydd calon na diffibriliwr cardiaidd mewnblanadwy (ICD).

neu

- Mae gennyf reolydd calon a/neu ddiffibriliwr cardiaidd mewnblanadwy (ICD) ac mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn wedi'u hesbonio i mi.

Llofnod:

Enw'r claf:

Dyddiad:

Datganiad:

dehonglydd

tyst (lle y bo'n briodol)

- Rwyf wedi dehongli'r wybodaeth yn y ffurflen hon i'r claf hyd eithaf fy ngallu ac mewn ffordd sydd, yn fy marn i, yn ddealladwy iddo.

neu

- Rwy'n cadarnhau na all y claf lofnodi ond ei fod wedi cydsynio i gael y driniaeth.

Llofnod:

Enw:

Dyddiad:

Cadarnhad o gydsyniad y claf

(I'w lofnodi cyn i'r radiotherapi ddechrau)

Rwy'n cadarnhau nad oes gennyf unrhyw gwestiynau pellach ac fy mod am gael y driniaeth.

Blaenlythrennau'r claf

Dyddiad: